

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Cyffredinol Glangwili

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Ward Cadog a Ward Ceri

Dyddiad arolygu: 5 a 6 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Ein canfyddiadau.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	29
4.	Beth nesaf?	35
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	36
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	37
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	39

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cyffredinol Glangwili sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 5 a 6 Mawrth 2019. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Cadog (Meddygaeth Gyffredinol, Gofal Eiddilwch)
- Ward Ceri (Meddygaeth Gyffredinol, Uned Ailalluogi¹)

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC a dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ Gwasanaeth byr a dwys yw ailalluogi a gynigir i bobl ag anableddau a phobl sy'n eiddil neu'n adfer ar ôl salwch neu anaf

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol â pharch ac urddas. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o fentrau ar y wardiau i wella profiad y claf.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau er mwyn hybu gofal diogel ac effeithiol ymhellach i gleifion yn unol â chanllawiau cenedlaethol a'r Safonau Iechyd a Gofal.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn siarad yn ffafriol am y gofal roeddent yn ei gael
- Roedd y staff yn broffesiynol, yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofalu i gleifion
- Mentrau ar y wardiau i annog cleifion i symud
- Roedd Ward Ceri yn datblygu gofal unigol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dogfennaeth cynlluniau gofal manwl unigol ar Ward Ceri
- Yr amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd a lles a oedd yn cael ei harddangos ar Ward Ceri
- Pa mor aml y cynhelir gwiriadau a gweithdrefnau glendid ar Ward Cadog
- Rheoli meddyginiaethau a defnyddio ocsigen
- Ymwybyddiaeth o'r Safonau Iechyd a Gofal ymhlith y staff.

3. Ein canfyddiadau

Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 i gyd, ledled Sir Gaerfyrddin (183,936), Ceredigion (79,488) a Sir Benfro (120,576). Mae'n darparu gwasanaethau Acíwt, Sylfaenol, Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu drwy Ysbytai Cyffredinol a Chymunedol, Canolfannau Iechyd, Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr, Optometryddion a safleoedd eraill.

Ysbyty Cyffredinol Glangwili yng Nghaerfyrddin yw'r Ysbyty Cyffredinol Dosbarth aciwt mwyaf yn Ne-orllewin Cymru. Mae'n cynnwys 400 o welyau ac yn darparu llawer o wasanaethau cleifion mewnol i gleifion yn Sir Benfro a Cheredigion yn ogystal â Sir Gaerfyrddin. Yn ogystal â'r amrywiaeth o arbenigeddau cyffredinol, mae Meddygon Ymgynghorol mewn Cardïoleg Bediatrig, Niwroleg Bediatrig, Wroleg Bediatrig, Meddygaeth Genhedlol-wrinol, Oncoleg Glinigol, Llawfeddygaeth Blastig, Niwrolawdriniaeth, Salwch Meddwl a Llawdriniaeth ar y Geg yn ymweld â'r ysbyty. Agorodd Uned Argyfyngau o'r radd flaenaf, a gostiodd £7m, ym mis Mawrth 2007, sy'n cynnwys llety sy'n addas i 40,000 o gleifion y flwyddyn, ac ar y llawr uwchben yr Uned Argyfyngau, mae Uned Gofal Dwys a Dibyniaeth Fawr newydd.

Mae Ward Cadog yn ward meddygaeth gyffredinol rhyw cymysg gyda 19 o welyau, sy'n arbenigo mewn eiddilwch. Mae'r ward wrth ymyl Ward Dewi, sydd wedi cau erbyn hyn, ond sy'n cael ei defnyddio fel ward orlif i gynnig capasiti ychwanegol pan fydd nifer arferol y gwelyau a ariennir yn yr ysbyty yn llawn. Mae lle i 20 o welyau ar Ward Dewi, a phan mae ar agor, caiff ei rheoli gan y Brif Nyrs a'r staff ar Ward Cadog. Yn ystod yr arolygiad, roedd nifer y cleifion ar y ward orlif yn amrywio, ac ar y mwyaf roedd pum claf ar y ward. Mae rheolwr ward, dirprwy reolwr ward, nyrsys cofrestredig, gweithwyr cymorth eiddilwch a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ar Ward Cadog.

Mae Ward Ceri yn ward ailalluogi rhyw cymysg gydag 20 o welyau, ond mae'r cleifion yn derbyn gofal mewn baeau o'r un rhyw neu ystafelloedd ochr ag un gwely. Mae gan Ward Ceri reolwr sy'n gyfrifol am reoli'r ward a'r timau nyrsio, a oedd yn cynnwys dirprwy reolwr y ward, nyrsys cofrestredig, gweithwyr adsefydlu a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Roedd gan Ward Ceri hefyd bennaeth therapïau a phennaeth therapïau cynorthwyol, wedi'u cefnogi gan dechnegwyr therapi. Mae'r tîm therapi yn darparu gwasanaethau ffisiotherapi a therapi galwedigaethol i'r cleifion.

Agorwyd Ward Ceri ym mis Hydref 2018. Roedd y mwyafrif o'r staff nyrsio wedi bod yn gweithio ar Ward Dewi cyn hynny (fel y trafodwyd yn gynharach). Roedd Ward Dewi yn ward meddygaeth gyffredinol cyn iddi gau, a chafodd y staff eu trosglwyddo i Ward Ceri.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y ddwy ward, dywedodd y cleifion wrthym fod eu profiad cyffredinol yn ardderchog neu'n dda iawn, ac roedd y sylwadau a wnaethant am eu profiad yn gadarnhaol ar y cyfan. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth i gleifion yn cael ei harddangos ar Ward Cadog. Fodd bynnag, nid oedd digon ar Ward Ceri ac mae angen gwella hyn.

Roedd y ddwy ward wedi datblygu mentrau i wella profiad y claf ac annog cleifion i symud. Dylai'r bwrdd iechyd gefnogi'r wardiau i ddatblygu'r rhain a mentrau eraill ymhellach.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd 11 ohonynt i gyd. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion ar y ddwy ward yn cynnwys y canlynol:

"Staff gwyh. Bob amser yn hapus ac yn fodlon fy helpu."

"Mae'r staff i gyd yn wych"

"Staff hyfryd iawn, pob un ohonynt, a'r meddygon a'r staff eraill."

Roedd y cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty yn amrywio o dda i ardderchog, ac roedd yr holl gleifion yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt. Roeddent yn cytuno hefyd bod y staff yn darparu gofal pan fo angen.

Cadw'n iach

Nid oedd hawl ysmegu yn yr ysbyty. Roedd hyn yn ymestyn hefyd i ddefnyddio anwedd/e-sigarêts. Roedd y trefniadau hyn yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Mangreuedd Di-fwg (Cymru) 2007. Wrth drafod gyda'r staff, dywedasant y gallent atgyfeirio cleifion at wasanaeth rhoi'r gorau i smegu os oedd angen, ond nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ynglŷn â hyn. Dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth yn hysbysebu'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smegu.

Roedd gan Ward Cadog ardal arddangos taflenni a oedd yn cynnig cyflenwad o wybodaeth hybu iechyd, a gwybodaeth berthnasol yn ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymunedol, y gallai'r cleifion, eu teuluoedd ac ymwelwyr ei darllen a mynd â hi adref i gyfeirio ati yn y dyfodol.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth yn cael ei harddangos ym mhob rhan o Ward Cadog, a oedd yn berthnasol i'r grŵp cleifion, teuluoedd a gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys hysbysfwrdd i Ofalwyr (er nad oedd hwn ar y brif ward), cynllun 'Butterfly'², her 'Parlys Pyjamas' ac ymgyrch Get Up, Get Dressed i hyrwyddo adsefydlu, adferiad a symud yn yr ysbyty. Mae'r mentrau hyn yn annog cleifion i newid allan o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn helpu i gynnal urddas, hybu annibyniaeth a helpu â'u hadferiad a'u helpu i baratoi ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel.

Roedd arddangosfa hefyd ar gyngor bwyta'n iach, maeth a gofal y geg. Roedd yr arddangosfa wedi'i lleoli wrth orsaf diodydd/byrbrydau'r ward lle gallai cleifion, ar ôl asesiad risg, gael gafael ar eu diodydd a'u byrbrydau eu hunain ar y ward. Mae'r fenter hon yn annog ardal adsefydlu ar y ward ac yn annog cleifion i symud.

Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth i gleifion yn hybu iechyd neu les yn cael ei harddangos ar Ward Ceri ac nid oedd unrhyw daflenni ar gael yn hawdd chwaith. O ganlyniad, nid oedd cleifion ar Ward Ceri yn cael digon o wybodaeth am aros yn iach.

Gwnaethom siarad ag aelodau o'r staff ar Ward Ceri a gadarnhaodd eu bod yn aros i fyrddau arddangos gael eu rhoi ar y waliau er mwyn ei gwneud yn bosibl

²Mae cynllun 'Butterfly' yn galluogi pobl y mae dementia wedi'i effeithio'n barhaol ar eu cof i wneud hyn yn glir i staff yr ysbyty ac yn rhoi strategaeth syml ac ymarferol i'r staff ar gyfer diwallu eu hanghenion.

i'r wybodaeth hon gael ei harddangos. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddyddiad penodol wedi'i bennu ar gyfer hyn.

Roedd menter gadarnhaol ar waith yn Ward Cadog, sef ystafell atgofion. Ardal i gleifion oedd hon, a oedd yn cynnwys eitemau cartrefol hanesyddol a thraddodiadol, y gallai cleifion ei defnyddio, ac a oedd hefyd yn cynnig lle penodol lle gallai'r staff hwyluso sesiynau atgofion strwythuredig³.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd a llesiant yn cael ei harddangos ac ar gael ar Ward Ceri.

Gofal ag urddas

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am staff yr ysbyty. Roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnynt. Hefyd, dywedodd y cleifion hyn wrthym fod y staff yn defnyddio eu henw dewisol.

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn garedig ac yn dosturiol tuag at y cleifion. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol.

Gwnaethom hefyd weld y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol. Gwnaed hyn drwy gau llenni urddas o amgylch ardaloedd gwelyau a chau drysau i ystafelloedd unigol, toiledau ac ystafelloedd cawod. Nodwyd bod y staff yn gostwng eu lleisiau pan oeddent yn ymdrin â

³ Gall sesiynau atgofion fod yn allweddol i helpu pobl, yn enwedig y rheini sydd â Dementia, i gofio a rhannu eu hatgofion. Mae'r sesiynau hyn yn ei gwneud yn bosibl i bobl gyfathrebu a chymdeithasu wrth iddynt fyfyrir ar eu profiadau bywyd, a'u rhannu, mewn amgylchedd cefnogol.

chleifion yn ystod ymyriadau personol, boed ar gyfer hylendid personol neu rownd y meddyg.

Roedd anghenion ymataliaeth hefyd wedi cael eu hasesu lle y bo'n briodol, ac roedd hyn wedi ei ddogfennu yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym ar Ward Cadog. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth anghyson am hyn ar gofnodion un claf ar Ward Ceri, felly nid oedd anghenion ymataliaeth y claf hwn na'r cymorth yr oedd ei angen ar gyfer hylendid personol yn glir.

Roedd cyfleusterau toiled ac ymolchi a rennir penodedig i ddynion a menywod ar gael ar y ddwy ward, ac roedd hynny wedi'i nodi'n glir. Roedd yn gadarnhaol y gallai'r arwyddion ar y toiledau gael eu newid yn hawdd gan y staff i newid y dyraniad o ran y rhywiau, er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth yn nifer y menywod a dynion ar y ward ar unrhyw adeg. Ar y ddwy ward (er mwyn helpu'r rhai â dementia), roedd drysau'r toiledau yn felyn⁴. Roedd hon yn fenter dda, er mwyn helpu cleifion â dementia i ddod o hyd iddynt.

Gwybodaeth i gleifion

Nid oedd y cyfarwyddiadau i gyrraedd y wardiau, yn arbennig Ward Ceri, wedi'u harddangos yn glir drwy'r ysbyty cyfan, ac roedd ffont yr ysgrifen ar yr arwyddion yn eithaf bach. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd ei darllen i rai, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg. Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, cadarnhawyd gennym nad oedd yn hawdd dod o hyd i leoedd yn yr ysbyty. Ychydig iawn o arwyddion a gafwyd hefyd i gyfeirio ymwelwyr i fwyty'r ysbyty. Dylai'r bwrdd iechyd wella'r arwyddion o gwmpas safle'r ysbyty er mwyn helpu cleifion ac ymwelwyr.

Roedd posteri wrth fynedfa'r wardiau yn nodi amseroedd ymweld a rhifau ffôn. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd amrywiaeth eang o wybodaeth wedi'i harddangos i gleifion ac ymwelwyr ar ward Cadog, ond nid oedd digon o wybodaeth debyg ar Ward Ceri ac mae angen i hyn wella.

Roedd staff ar y ddwy ward yn gwisgo iwniform; roedd hyn yn helpu i nodi'r gwahanol rolau a oedd ganddynt. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso hyn fwy fyth,

⁴ [Mae melyn yn helpu i dynnu sylw at welliannau ar gyfer cleifion â dementia](#)

byddai'n fuddiol i'r ddwy ward arddangos gwybodaeth i egluro pa broffesiwn sy'n gwisgo pa iwniform.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion yn eu holiaduron fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall. Fodd bynnag, nid oedd pedwar o'r holiaduron a ddychwelwyd yn cytuno nac yn anghytuno â hyn, a dywedodd un claf:

"Mae'r staff yn gwneud eu gorau ond maent bob amser mor brysur. Mae'n ymddangos nad oes ganddynt ddigon o amser mewn diwrnod."

Mae sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth amserol am eu gofal/triniaeth yn y dyfodol ac am eu rhyddhau o'r ysbyty yn gallu lleddfu pryderon a'i gwneud yn bosibl i reoli disgwyliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â'r staff pan oedd angen gwneud hynny a dywedasant hefyd eu bod o'r farn bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty.

Cadarnhaodd y cleifion a atebodd y cwestiwn am gael y dewis i siarad â'r staff yn eu dewis iaith, fod hyn wedi'i gynnig iddynt. Roedd hyn yn cynnwys cleifion a ddywedodd mai Cymraeg oedd eu dewis iaith a'r rhai a ddywedodd mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Yn ystod y ddau ddiwrnod, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Dywedodd y staff ar bob ward wrthym fod staff y ward yn cyfarfod ar adegau penodedig bob dydd pan fyddai sifftiau'n newid. Gwnaed hyn er mwyn rhannu a thrafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, risgiau perthnasol ac unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch, a chynnal parhad gofal.

Roedd gan bob ward fwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion⁵. Roedd y byrddau hyn yn nodi materion ynglŷn â diogelwch cleifion a gofynion/cynlluniau gofal dyddiol yn glir, yn ogystal â chymorth a chynnydd angenrheidiol, o ran trefniadau rhyddhau cleifion. Roedd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n feunyddiol gan dimau amlddisgyblaethol.

Roedd y dull cyfathrebu hwn yn cael ei ategu â nifer o fagnetau cod a rhai nodiadau ysgrifenedig ond roedd cyfrinachedd yn cael ei gadw. Fodd bynnag, ar ward Cadog, nid oedd y magnetau eicon hambwrdd coch yn cael eu defnyddio i nodi ar y bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion pa gleifion a oedd angen cymorth amser prydau bwyd, er eu bod ar gael. Golygai hyn ei bod yn bosibl nad oedd y cleifion a oedd angen cymorth amser prydau bwyd yn cael eu nodi'n gywir gan y staff. Hefyd, roedd gwybodaeth anghywir wedi'i harddangos, yn dweud bod un o'r cleifion yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid⁶ (DoLS), ond nid oedd hyn yn wir. Cafodd y ddau fater hyn eu hunioni yn ystod yr arolygiad. Roedd y bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion ar Ward Ceri yn gyfredol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyfredol berthnasol er mwyn cynorthwyo'r staff.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

⁵ Mae'r bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis; lefelau risg o haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau llawn, timau nyrsio a meddygol, ymhlith pethau eraill.

⁶ Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn darparu fframwaith cyfreithiol er mwyn diogelu oedolion agored i niwed a all gael eu hamddifadu, neu sydd wrthi'n cael eu hamddifadu, o'u rhyddid mwn cartref gofal neu ysbyty. Mae'r trefniadau diogelu hyn ar gyfer pobl nad oes ganddynt alluedd i benderfynu ble mae angen iddynt fyw er mwyn cael triniaeth a/neu ofal a bod angen eu hamddifadu o'u rhyddid, er eu budd pennaf, heblaw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol). Daeth y trefniadau diogelu i rym yng Nghymru a Lloegr ar 1 Ebrill 2009.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom gleifion yn derbyn gofal gan staff caredig a thosturiol ar y ddwy ward. Arsylwyd ar y staff yn helpu'r cleifion â'u harferion dyddiol lle y bo'n briodol. Roedd y wardiau'n darparu gofal meddygol ac adsefydlu parhaus.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd wedi datblygu rolau er mwyn cefnogi'r gofal arbenigol a ddarperir ar y ddwy ward, yn benodol, y gweithwyr cymorth eiddilwch ar Ward Cadog a'r gweithwyr adsefydlu ar Ward Ceri.

Yn ogystal â'r staff nyrsio a meddygol, roedd aelodau'r tîm amlddisgyblaethol, fel ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol, yn rhan o ofal y cleifion.

Roedd nifer o fentrau sefydledig ar Ward Cadog a oedd yn hybu annibyniaeth, fel yr orsaf diodydd/byrbrydau a'r ystafell atgofion. Trafodir y rhain yn fanwl mewn rhan arall o'r adroddiad.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff ar Ward Ceri wedi dechrau hyrwyddo amser prydau bwyd therapiwtig drwy annog cleifion i fwyta'u bwyd wrth fwrdd cymunol, yn hytrach nag wrth eu gwelyau. Megis dechrau oedd y fenter hon, ond roedd y staff yn siarad amdani'n gadarnhaol a gwelsom fod y cleifion yn mwynhau'r profiad hwn. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, dim ond nifer bach o gleifion ar y tro a oedd yn gallu gwneud hyn oherwydd y cyfarpar a oedd ar gael. Dylai'r bwrdd iechyd gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r amserau prydau bwyd therapiwtig hyn drwy sicrhau bod digon o gyfarpar a lle ar gael ar y ward.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion ar bob ward a gwelsom dystiolaeth ar Ward Cadog o ymgais i ddiwygio cynlluniau gofal cyffredinol i adlewyrchu'r gofal unigol a ddarperir. Roedd y cynlluniau gofal hefyd yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir gan y staff ar hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluedd.

Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth cynllunio gofal ar Ward Ceri yn dangos gofal unigol. Mae mwy o fanylion am y canfyddiadau hyn a meysydd i'w gwella yn adran Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol yr adroddiad hwn. Dywedodd y staff hefyd fod oedi wrth ryddhau cleifion o Ward Ceri weithiau oherwydd diffyg cyfarpar ac adnoddau eraill i'r cleifion fynd â nhw gartref gyda nhw. Mae'n hanfodol bod yr adnoddau hyn yn cael eu darparu er mwyn i Ward Ceri gynnig ethos o ailalluogi.

Hawliau pobl

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â'u dymuniadau.

Datgelodd trafodaethau â chleifion a'r staff fod amseroedd ymweld penodol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd, pan oedd angen i aelodau'r teulu deithio pellteroedd mawr i'r ysbyty, eu bod yn gallu ymweld ar unrhyw adeg resymol.

Gwrando a dysgu o adborth

Os nad oedd claf neu berthynas/gofalwr yn fodlon ac os oedd am wneud cwyn, gwelsom fod gwybodaeth am broses Gweithio i Wella⁷ GIG Cymru ar Ward Cadog. Roedd taflenni Gweithio i Wella ar gael hefyd. Fodd bynnag, dim ond un poster maint A4 oedd yn cael ei arddangos ar Ward Ceri, nad oedd mor weladwy â'r wybodaeth a gaiff ei harddangos ar Ward Cadog, yn enwedig i bobl â nam ar eu golwg. Roedd hyn yn golygu efallai na fyddai cleifion a'u teuluoedd yn gweld y wybodaeth am sut i godi unrhyw bryderon/cwynion a allai fod ganddynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am Gweithio i Wella yn cael ei harddangos yn glir ac ar gael ar Ward Ceri.

⁷ Mae Gweithio i Wella yn ymwneud â'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu ohonynt yn y GIG ledled Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y ddwy ward mewn cyflwr da, gyda chyfarpar, dodrefn a gosodiadau o safon dda. Er bod y ddwy ward yn lân ar y cyfan, mae angen gwneud gwelliannau o ran pa mor aml y cynhelir gwiriadau a gweithdrefnau glanhau ar Ward Cadog.

Ar Ward Cadog, roedd cofnodion y cleifion yn drefnus ac yn cynnwys dogfennaeth gofal wedi'i theilwra i'r unigolyn. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i'r broses o gadw cofnodion a gofal unigol ar Ward Ceri.

Mae angen gwneud gwelliannau hefyd i'r gwaith o reoli meddyginiaethau ar Ward Cadog, ynghyd â rhagnodi a chofnodi'r broses o weinyddu ocsigen ar y ddwy ward.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod y ddwy ward mewn cyflwr da. Gwelsom fod y cyfarpar, y dodrefn a'r gosodiadau ar y wardiau o safon dda.

Roedd systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni. Gwelsom hyn pan wnaethom nodi perygl amgylcheddol mewn toiled cleifion ar Ward Cadog. Caeodd rheolwr y ward y toiled ar unwaith a chafodd y broblem ei hunioni gan Dîm Ystadau'r bwrdd iechyd y diwrnod hwnnw.

Gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech i gadw'r prif goridor ac ardaloedd eraill a oedd yn agored i gleifion yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon baglu.

Roedd cynhyrchion glanhau yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau priodol i atal mynediad heb awdurdod a niwed posibl.

Disgrifiodd yr uwch staff drefniadau priodol ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau clinigol, eu cofnodi, ymchwilio iddynt a rhannu'r hyn a ddysgwyd ohonynt.

Ar gyfer Ward Cadog, cytunodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur fod y bwrdd iechyd yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Teimlent hefyd y byddai'r bwrdd iechyd yn gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto, a'i fod yn trin staff sydd wedi bod yn rhan o gamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym hefyd eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yn y sefydliad, ac yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

Roedd ymatebion y mwyafrif o'r nyrsys cofrestredig ar Ward Ceri yn adlewyrchu barn y staff ar Ward Cadog. Fodd bynnag, nid oedd barn staff o ddisgyblaethau eraill yn y tîm yn cyd-fynd â'r datganiadau hyn. O ganlyniad, nid yw'n glir i ba raddau y teimlai'r staff ar Ward Ceri (ac eithrio'r nyrsys cofrestredig) eu bod yn gallu rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny, na pha adborth y mae'r aelodau hyn o'r staff yn ei gael yn dilyn digwyddiadau ar y ward neu wersi i'w dysgu o feysydd eraill.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo y gallant roi gwybod am ddigwyddiadau, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hyn.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael adborth yn sgil digwyddiadau a gwersi i'w dysgu o feysydd eraill.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Adolygwyd cofnodion gofal wyth claf. Gwelsom fod pob un o'r cleifion wedi cael eu hasesu o ran eu risg o ddatblygu briwiau pwyso. Roedd adnodd asesu risg cydnabyddedig wedi'i gwblhau ar gyfer pob claf.

Ar Ward Cadog, roedd y pum set o gofnodion cleifion a welwyd yn cynnwys cynlluniau gofal ysgrifenedig i roi cyfarwyddiadau i staff nyrsio am y gofal roedd ei angen. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos y cynorthwywyd cleifion ag anawsterau symud i droi neu symud yn rheolaidd er mwyn helpu i'w hatal rhag datblygu briwiau pwyso.

Fodd bynnag, ar Ward Ceri, nid oedd cofnod gofal un claf yn cynnwys cynllun gofal wedi'i deilwra'n unigol er mwyn rhoi cyfarwyddyd ffurfiol i'r staff ar sut i

fonitro cyflwr y claf, a gofalu am ei anghenion unigol. Roedd hyn yn golygu bod y claf yn wynebu risg o ddatblygu niwed i'w groen oherwydd briwiau pwyso. Roedd tystiolaeth o waith asesu croen priodol yn y ddwy set arall o gofnodion cleifion a adolygwyd. Fodd bynnag, nid oedd cynlluniau gofal manwl wedi'u teilwra'n unigol yn y ddwy set o gofnodion hyn.

Ar y ddwy ward, gwnaed atgyfeiriadau yn ôl yr angen, at wasanaeth Nyrs Hyfywedd Meinwe y bwrdd iechyd. Er y nodwyd y bu oedi ar brydiau cyn bod modd i'r Nyrs Hyfywedd Meinwe gynnal asesiadau oherwydd problemau staffio yn y tîm hyfywedd meinwe, cadarnhaodd staff y ward fod y tîm yn gefnogol ac yn rhoi cymorth dros y ffôn cyn dod i'r ward. Dylai'r sgysiau ffôn hyn gael eu dogfennu yng nghofnodion y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer atal niwed i feinweoedd a briwiau pwyso yn ôl yr angen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y caiff anghenion gofal y cleifion eu diwallu mewn ffordd amserol, ar gyfer y rheini sydd angen asesiad gan Nyrs Hyfywedd Meinwe.

Atal cwympiadau

Gwnaethom fwrw golwg dros sampl o gofnodion wyth claf a gwelsom fod pob un o'r cleifion wedi cael ei asesu o ran ei risg o gwmpo. Yn ogystal, ar Ward Cadog, roedd dogfennaeth glir a oedd yn cefnogi symudedd cleifion. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir ar Ward Ceri.

Ar Ward Cadog, os oedd claf yn wynebu risg o gwmpo, roedd yn amlwg bod cynllun gofal cyfredol wedi'i deilwra i'r claf a oedd yn cael ei roi ar waith a'i werthuso.

Gwelsom arfer y mae'n werth tynnu sylw ato ar Ward Ceri, sef bod y cymorth symudedd roedd ei angen ar bob claf unigol wedi'i nodi'n glir uwchben y gwely, ac roedd hyn yn ei gwneud yn hwylus i'r staff gyfeirio ato. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth glir ar gael ar gyfer un claf y nodwyd ei fod yn wynebu risg o gwmpo, ac roedd y staff yn dibynnu ar y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion i gyfathrebu.

Wrth siarad â'r staff ar Ward Ceri, roedd ethos clir ar y ward i gefnogi cleifion i symud o gwmpas y ward ar ôl iddynt gael asesiadau unigol, gan ddefnyddio'r cymorth gofynnol yn eu cynllun rhyddhau, er mwyn eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth o'r data adrodd ar

ddigwyddiadau yn dangos bod cleifion yn cwmpo yn aml ar Ward Ceri. Felly, mae'n hanfodol bod dogfennaeth atal cwmpadau cleifion ar gael, a'i bod yn glir ac yn gyfredol, er mwyn lleihau'r risg o gwmpo i'r grŵp cleifion hwn cymaint â phosibl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer atal cwmpadau yn ôl yr angen.

Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, gwelsom fod y ddwy ward yn lân ac yn daclus er mwyn hwyluso'r gwaith o'u glanhau'n effeithiol. Roedd ystafelloedd gwely unigol ar gael ar y ddwy ward er mwyn gofalu am gleifion roedd angen eu harwahanu er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael ym mhob rhan o'r wardiau, yn ogystal â gel saniteiddio ar gyfer y dwylo. Mae hylendid dwylo effeithiol yn hanfodol er mwyn helpu i atal croes-heintio.

Er mwyn cynnal prosesau atal a rheoli heintiau da, roedd staff ar y ddwy ward yn cydymffurfio â'r polisi Noeth o dan y Penelin⁸. Roedd iwnniform y staff yn hwyluso hyn.

Roedd Cyfarpar Diogelu Personol, fel ffedogau a menig tafladwy, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol i atal a rheoli heintiau'n effeithiol.

Gwelsom fod cyfleusterau priodol ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, gan gynnwys offer miniog meddygol fel nodwyddau.

⁸ Mae'r polisi Noeth o dan y Penelin yn gwahardd pob aelod o'r staff, gan gynnwys timau clinigol a gweinyddol, rhag gwisgo unrhyw ddillad na gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), o dan y penelin ar y ward, ac yn enwedig pan fyddant yn dod i gysylltiad â chleifion.

O fewn y sampl o gofnodion gofal cleifion a welwyd gennym ar y ddwy ward, gwelsom fod adnodd sgrinio ar gyfer sepsis⁹¹⁰ ar gael o fewn Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) Cymru Gyfan¹¹ (siartiau arsylwadau hanfodol cleifion). Nod hyn yw nodi cleifion a all fod yn datblygu sepsis, er mwyn sicrhau y gellir cynnal adolygiad meddygol a'u trin yn brydlon.

Roedd trefniadau glanhau ar waith yn y ddwy ward. Gwelsom fod y rhain yn cael eu cwblhau'n llawn ar Ward Ceri. Nid oedd pob aelod o'r staff cadw tŷ ar Ward Cadog yn ymwybodol bod rhestrau gwirio ar waith, ac roedd rhai pethau heb eu cynnwys ar y rhestrau gwirio. Roedd hyn yn cynnwys y rhestr wirio ar gyfer toiled yr ymwelwyr a'r staff a rhestrau gwirio'r ystafell olchi. Yn ogystal, nid oedd y rhestrau gwirio'n cynnwys y dyddiad llawn, felly nid oedd yn glir at ba gyfnod o amser roeddent yn cyfeirio.

Yn ystod diwrnod cyntaf yr arolygiad, gwelsom fod llawer o bowdwr talc wedi'i adael ar lawr cawod am nifer o oriau. Cafodd ei lanhau yn y pen draw, ond dylid bod wedi ymdrin â hyn yn brydlon. Y rheswm dros hyn yw bod risg y gallai claf lithro ar y powdwr, ac roedd hefyd yn cynyddu'r risg o groes-heintio o un ardal i'r llall.

Roedd pethau ymolchi amldefnydd hefyd wedi'u gadael mewn ystafell gawod ar Ward Cadog. Gallai'r rhain fod wedi cael eu defnyddio gan lawer o gleifion, gan gynyddu'r perygl o groes-halogi heintiau, ac ni ddylai hyn fod yn rhan o arfer y ward.

Yn ystod taith o amgylch Ward Cadog, gwelsom fod ysgarthion ar declyn codi sedd toiled. Aethpwyd i'r afael â hyn cyn gynted ag y gwnaethom drafod hyn ag aelod o'r staff. Er bod hyn yn gallu digwydd yn hawdd pan fydd cleifion yn defnyddio cyfleusterau toiled yn annibynnol, codwyd achosion tebyg gan glaf yn ei holiadur.

Er gwaetha'r sylw hwn gan un claf, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod eu wardiau'n lân ac yn daclus.

⁹ Cymhlethdod difrifol yn dilyn haint yw sepsis. Heb ei drin yn gyflym, gall sepsis beryglu bywyd.

¹⁰ [Adnodd Sgrinio Sepsis](#)

¹¹ [Siartiau Sgôr Rhybudd Cynnar Cenedlaethol \(NEWS\)](#).

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ardaloedd cawodydd yn lân ar ôl iddynt gael eu defnyddio, ac na chaiff pethau ymolchi eu gadael yn ystafelloedd cawod i'w rhannu gan nifer o gleifion.

Maeth a hydradu

Roedd proses ar waith a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r staff gwblhau asesiadau risg maeth ar gyfer cleifion o fewn 24 awr iddynt gael eu derbyn. Roedd yr holl gofnodion clinigol a adolygwyd gennym yn dangos bod hyn wedi digwydd.

Roedd siartiau bwyd a hylifau ar waith lle y bo angen. Roedd y rhain wedi'u cwblhau'n gywir ar Ward Cadog er mwyn sicrhau bod cymeriant drwy'r geg yn cael ei fonitro er mwyn cynnal lefelau hydradu a maeth digonol. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar gyfer y cofnodion a adolygwyd gennym ar Ward Ceri.

Ar Ward Cadog, os nodwyd bod angen cynllun gofal maeth unigol ar glaf, roedd y cynllun hwnnw ar waith. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn wir am y claf a nodwyd ar Ward Ceri.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd y System Hambwrdd Coch ar waith, sy'n nodi'r cleifion sydd angen cymorth i fwyta, a gwelsom aelodau o'r staff yn darparu cymorth adeg prydau bwyd.

Fel y nodwyd yn gynharach, gwelsom fenter gadarnhaol ar Ward Ceri, lle roedd cleifion yn cael eu hannog i fwyta'u pryd wrth fwrdd cymunol yn ardal bae cleifion. Roedd hyn yn annog cleifion i symud ar y wardiau ac yn caniatáu i'r staff fonitro annibyniaeth a chynnydd o ran adsefydlu.

Gwelsom fod jygiau dŵr a chwpanau wedi'u rhoi ar fyrddau wrth ymylon y gwely, ac o fewn cyrraedd hawdd i'r cleifion. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd yr orsaf diodydd/byrbrydau yn fenter gadarnhaol ar Ward Cadog. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu'r fenter hon ar wardiau eraill.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael digon o amser i fwyta'u bwyd ar eu cyflymder eu hunain a bod dŵr ar gael bob amser.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod y prydau'n edrych yn flasus. Gwelsom fod bwydlen amrywiol ar gael, a chadarnhaodd staff y ward y darperid ar gyfer cleifion yr oedd angen iddynt fwyta deiet therapiwtig. Fodd bynnag, oherwydd

problem yn ymwneud â chyflenwadau'r ysbyty, rhoddwyd gwybod ar fyr rybudd nad oedd cawl ar gael ar ddau ddiwrnod ein harolygiad.

Yn y sefyllfa hon, nid oedd y staff yn siŵr pa ddewisiadau eraill a oedd ar gael i'r cleifion, ac roedd hyn yn peri pryder penodol i gleifion a oedd yn dilyn deiet meddal neu hylifol. Ni fu modd i'r staff roi sicrwydd y byddai darpariaeth ddeietegol addas ar gael i'r cleifion hynny a ddylai fod wedi cael cawl. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r sefyllfa hon a sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd i roi prydau amgen addas i gleifion, lle y bo hynny'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu cwblhau'n gywir.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer maeth a hydradu pan fydd eu hangen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd i ddarparu prydau amgen addas i gleifion, os bydd anawsterau arlwyio.

Rheoli meddyginiaethau

Ystyriwyd y trefniadau ar bob ward ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Er mwyn gwneud hyn, arolygwyd yr ardaloedd lle roedd y staff yn storio meddyginiaeth a hefyd y broses o baratoi meddyginiaeth ar lefel y ward a'r broses o ragnodi a rhoi meddyginiaeth.

Roedd Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan ar bob ward wedi'u cwblhau'n gywir. Roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Roedd enwau cleifion yn cael eu cofnodi drwy gydol y broses ac roedd hi'n glir pa feddyginiaeth a oedd wedi cael ei rhoi. Hefyd, os nad oedd meddyginiaeth a ragnodwyd wedi cael ei rhoi, roedd rheswm yn cael ei gofnodi'n glir.

Fodd bynnag, lle roedd angen ocsigen ar gleifion yn rheolaidd, nid oedd wedi'i ragnodi, ac nid oedd yr ocsigen a roddwyd yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar Siart Cyffuriau Cymru Gyfan ychwaith. Mae canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn datgan y dylai ocsigen gael ei

ystyried yn gyffur, ac y dylid ei ragnodi oni bai ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn argyfwng, fel dadebru claf.

Ar y ddwy ward, gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth a thymheredd yr ystafelloedd triniaeth yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd.

Ar Ward Ceri, roedd yr ystafell driniaeth wedi'i chloi, ac roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau, oergelloedd meddyginiaeth a throlïau meddyginiaeth dan glo. Fodd bynnag, ar Ward Cadog, nid oedd modd cloi dau gwpwrdd meddyginiaeth, ac roedd cypyrddau meddyginiaeth eraill yn cael eu gadael heb eu cloi. Er bod drws yr ystafell driniaeth wedi'i gloi gan glo cod allwedd, roedd y cod i'w weld ar y ward ac felly nid oedd yr ystafell driniaeth na'r cypyrddau meddyginiaeth wedi'u diogelu'n briodol.

Ar y ddwy ward, roedd trefniadau addas ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a all gael eu Camddefnyddio, a rhoddwyd cyfrif cywir am y rhain a'u gwirio'n rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell glinig a'r cypyrddau meddyginiaeth yn cael eu cloi ar Ward Cadog.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi'n gywir ac y cedwir cofnod o hyn ar Siart Cyffuriau Cymru Gyfan.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisi a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd mewn perygl neu'n agored i niwed. Roedd hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion yn orfodol ac roedd prosesau digonol ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant a hyfforddiant gloywi.

Roedd uwch aelodau o'r staff yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu. Gwnaethant gadarnhau bod cyngor a chymorth ar gael i'r staff gan dîm diogelu penodedig.

Dywedodd 19 o'r 20 aelod o'r staff a gwblhaodd yr adran hon o'r holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano.

Dywedodd y mwyafrif o'r aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol annigol, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt. Fodd bynnag, er bod naw allan o ddeg o'r staff ar Ward Cadog wedi dweud hyn, dim ond pump allan o ddeg aelod o'r staff ar Ward Ceri a ddywedodd yr un peth.

O gofio ymateb staff ar Ward Ceri i'r holiadur ynghylch diogelu a rhoi gwybod am ddigwyddiadau, rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried ffyrdd o wella dealltwriaeth a hyder y staff wrth roi gwybod am unrhyw bryderon mewn perthynas â'r meysydd hyn.

Roedd prosesau ar waith i gwblhau asesiad galluedd meddyliol¹² ar gyfer cleifion o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005¹³. Os nodir bod gan glaf ddiffyg galluedd, yna mae'n ofynnol i'r staff gwblhau cais am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ac atgyfeirio'r achos at yr eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol (IMCA)¹⁴.

Ar Ward Cadog, roedd cofnodion clir o hyn yn nodiadau'r claf perthnasol. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oedd y bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn adlewyrchu statws un claf o ran Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

¹² [Asesiad Galluedd Meddyliol](#) - Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi nad oes gan unigolyn alluedd os na all wneud penderfyniad penodol, ar adeg benodol, oherwydd nam neu aflonyddu ar weithrediad y meddwl neu'r ymennydd. Mae angen cynnal asesiad er mwyn pennu hyn.

¹³ [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) - Un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n gymwys i Gymru a Lloegr yw Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Ei phrif ddiben yw darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran oedolion nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau penodol drostynt eu hunain.

¹⁴ Rhaid i'r awdurdod lleol, neu'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn y GIG, wneud atgyfeiriadau os yw claf yn ddigyfaill (os nad oes ganddo deulu na ffrindiau 'priodol' y gellir ymgynghori â nhw), a bod asesiad wedi pennu nad oes ganddo alluedd i wneud penderfyniad ynghylch: triniaethau meddygol difrifol, symudiadau hirdymor (mwy na 28 diwrnod yn yr ysbyty neu fwy nag wyth wythnos mewn cartref gofal) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).

Ar Ward Ceri, ar gyfer y claf perthnasol yr oedd angen asesiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid arno, nid oedd y gwaith papur ar gael yn hawdd yn nodiadau'r claf. Pan holwyd y staff am hyn, daethant o hyd i'r ddogfennaeth yn y pen draw ond nid oedd unrhyw gynllun gofal ar waith i adlewyrchu'r ffaith bod y claf yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo'n hyderus ac wedi'i gefnogi i roi gwybod am bryderon yn ymwneud â diogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod amrywiaeth o offer ar y wardiau, er enghraifft offer brys, offer monitro cleifion ac offer symud a chodi a chario. Roedd yn ymddangos bod y rhain i gyd yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gwirio offer dadebru ar y ddwy ward. Roedd cofnodion rheolaidd o wiriadau offer gan y staff. Roedd hyn yn dangos bod y troli dadebru wedi cael ei wirio'n rheolaidd a'i fod yn cynnwys digon o stoc a'i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio pe bai argyfwng (megis claf yn llewygu).

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod cleifion ar y ddwy ward i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Er bod tystiolaeth bod cleifion ar Ward Cadog yn cael gofal unigol, nid oedd hyn yn wir ar Ward Ceri, lle nad oedd gwybodaeth glinigol y cleifion yn cael ei chwblhau na'i threfnu'n dda.

Ar Ward Cadog, yn ogystal â'n canfyddiadau mewn perthynas ag atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd a maeth a hydradu, roedd asesiadau ysgrifenedig mewn perthynas â phoen cleifion bob amser wedi'u cwblhau yn y cofnodion gofal a adolygwyd gennym.

Gwelwyd tystiolaeth bod poen yn cael ei hasesu, ei lleddfu â meddyginiaeth a'i gwerthuso. Roedd adnoddau asesu poen ar waith i gefnogi hyn. Roedd gan gleifion sgoriau poen cyfredol hefyd. Yn ogystal â hynny, roedd poen yn cael ei rheoli ag analgesia addas, a oedd yn cael ei roi fel y'i rhagnodwyd yn rheolaidd.

Fodd bynnag, ar Ward Ceri, roedd dwy o'r tair set o gofnodion cleifion a adolygwyd gennym yn cynnwys dogfennaeth wael o ran rheoli poen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod poen yn cael ei hasesu a'i rheoli gan aelod o'r staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, a bod y cofnodion yn cael eu cwblhau'n gywir.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd system ar waith a oedd yn anelu at sicrhau bod data cleifion yn cael eu storio'n effeithiol ac yn ddiogel.

Roedd y cofnodion electronig wedi'u diogelu gan gyfrinair ac roedd y copïau papur o nodiadau achos cleifion wedi'u storio mewn troli nodiadau yr oedd modd ei gloi; roedd y ddwy system hyn yn helpu i atal mynediad amhriodol neu anawdurdodedig at y nodiadau.

O'r hyn a arsylwyd gennym ar y ddwy ward, roedd y staff yn sicrhau bod y trolïau nodiadau hyn wedi'u cloi pan nad oedd neb yn eu defnyddio ac felly, roeddent yn atal y risg o dorri cyfrinachedd cleifion a mynediad amhriodol neu anawdurdodedig at ddata cleifion.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu pum set o gofnodion cleifion ar Ward Cadog a gwelsom eu bod yn drefnus ac yn cynnwys yr ystod ddisgwyliedig o wybodaeth glinigol a oedd wedi'i chwblhau i safon foddhaol. Roedd y llawysgrifen yn ddarllenadwy ac roedd y cofnodion wedi'u llofnodi a'u dyddio. Fodd bynnag, nid oedd pob meddyg yn cynnwys ei rif cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'i rif blîp (cyswllt) fel mater o drefn.

Ar Ward Ceri, roedd un o'r tair set o gofnodion a welsom yn anhrefnus iawn ac roedd hyn yn golygu y cawsom ni a staff y ward anhawster mawr wrth geisio cael gafael ar y ddogfennaeth gofal ofynnol. Ym mhob un o'r tair set o gofnodion, er bod rhywfaint o asesiadau safonol a dogfennaeth monitro ar gael, nid oedd y staff yn eu cwblhau fel mater o drefn. Roedd hyn yn golygu na cawsom ein sicrhau bod pob agwedd ofynnol ar y gofal yn cael ei bodloni ar Ward Ceri.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob meddyg yn cynnwys ei rif cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'i rif blîp ar bob cofnod y mae'n ei nodi ar gofnodion cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion pob claf yn cael eu trefnu mewn ffordd systematig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd uwch staff meddygol a staff nyrsio yn bresennol yn ystod ein harolygiad ac roedd y staff yn ceisio rhoi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion mewn wardiau prysur.

Roedd y staff ar Ward Cadog yn siarad yn gadarnhaol ar y cyfan am yr uwch reolwyr. Fodd bynnag, roedd canfyddiad ar Ward Ceri nad oedd cysylltiad da rhwng staff y ward a'r uwch reolwyr.

Roedd y ddwy ward wedi creu timau o staff nyrsio a oedd yn cydweithio'n dda fel rhan o dîm. Fodd bynnag, rhaid recriwtio i lenwi'r swyddi therapi gwag ar Ward Ceri er mwyn i ethos y ward ailalluogi gel ei ddatblygu ymhellach.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd staff a oedd yn gweithio ar y ddwy ward i roi sylwadau ar bynciau a oedd yn ymwneud â'u gwaith. Gwnaed hyn yn bennaf drwy holiadur gan AGIC ond gwnaethom hefyd siarad â nifer o staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnodau ein harolygiad. Derbyniwyd cyfanswm o 20 o holiaduron wedi'u cwblhau o'r ddwy ward. Fe'u cyflwynwyd gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau ar y wardiau. Roedd y staff a gwblhaodd yr holiaduron wedi gweithio yn yr unedau am gyfnodau amrywiol, o ychydig fisoedd i dros 10 mlynedd.

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiodd yr uwch staff linellau adrodd clir i dîm rheoli ehangach y bwrdd iechyd. Disgrifiwyd rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd hefyd.

Roedd rheolwr ward llawn amser ar Ward Cadog, ac roedd yn gyfrifol am reoli'r ward a'r staff a oedd yn gweithio ynddi. Gofynnwyd cwestiynau i'r staff yn yr

holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylwadau canlynol:

“Hapus iawn â chefnogaeth barhaus y rheolwr”

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod eu rheolwr yn eu hannog i weithio mewn tîm. Dywedodd pob un ond dau o'r staff eu bod bob amser yn cael adborth clir ar eu gwaith, ac o'r ddau ymateb arall, roedd un yn nodi'n gadarnhaol ei fod fel arfer yn cael adborth clir ar ei waith, a'r llall yn nodi ei fod yn cael hynny weithiau.

Roedd Ward Ceri yn ward ailalluogi ddynodedig, ac roedd ganddi strwythur diffiniedig o staff nyrsio a staff therapi. Roedd rheolwr ward nyrsio llawn amser mewn swydd a oedd yn gyfrifol am reoli'r ward, y dirprwy reolwr a'r tîm nyrsio ar y ward. Cyn agor Ward Ceri, bu'r rhan fwyaf o'r staff nyrsio yn gweithio ar Ward Dewi¹⁵.

Roedd swyddi pennaeth therapïau a phennaeth therapïau cynorthwyol yn y strwythur hefyd, ac ar adeg yr arolygiad, roeddent yn cael eu cyflawni gan staff locwm tra bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi. Cefnogwyd y swyddi hyn gan ddau dechnegydd therapi rhan amser, yn gweithio 1.27 cyfwerth ag amser llawn.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff ar Ward Ceri yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Gwnaeth un aelod o'r staff y sylwadau canlynol:

“Mae rheolwr y ward yn gefnogol iawn ac yn fy annog yn fy ngwaith drwy'r amser”

Dywedodd saith aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym fod eu rheolwr yn eu hannog i weithio mewn tîm, a dywedodd y tri aelod arall o'r staff fod hyn yn wir fel arfer. Dywedodd pob un ond dau o'r staff eu bod bob amser neu fel arfer yn cael adborth clir ar eu gwaith, a nododd y ddau ymateb arall fod hyn yn digwydd weithiau.

¹⁵ Ward meddygaeth gyffredinol yn yr ysbyty oedd Ward Dewi.

Roedd yr ymatebion yn yr holiaduron staff yn cadarnhau ein harsylwadau o dimau'r ddwy ward. Dangosodd y ddau dîm staff, yn y ffordd roeddent yn rhyngweithio â'r cleifion a'i gilydd, eu bod yn gweithio'n dda fel tîm ac yn ymrwymedig i ofal cleifion.

Dywedodd aelodau o staff y ddwy ward a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch reolwyr yn y sefydliad.

Ar Ward Cadog, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch reolwyr a'r staff bob amser neu fel arfer, a bod yr uwch reolwyr yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig.

Fodd bynnag, ar Ward Ceri, dywedodd chwe aelod o'r staff fod cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a'r staff ond yn effeithiol weithiau, gyda'r gweddill yn dweud ei fod yn effeithiol fel arfer neu bob amser. Er bod un aelod o'r staff o'r farn bod yr uwch reolwyr fel arfer yn ceisio cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, teimlai wyth o'r staff mai dim ond weithiau roedd hyn yn digwydd ac roedd un aelod o'r staff o'r farn nad oedd hyn byth yn digwydd.

Felly, tra bod y staff ar Ward Cadog yn siarad yn gadarnhaol am yr uwch reolwyr yn gyffredinol, roedd canfyddiad ar Ward Ceri nad oedd cysylltiad da rhwng staff y ward ac uwch reolwyr y bwrdd iechyd, yn arbennig mewn perthynas â phenderfyniadau pwysig am eu gwaith.

Ar Ward Cadog, roedd yr aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod uwch reolwyr, ar y cyfan, yn ymrwymedig i ofal cleifion. Roedd llai o gefnogaeth i'r datganiad hwn ymhlith staff Ward Ceri, gyda'r rhan fwyaf o'r staff yn dweud bod uwch reolwyr ond yn ymrwymedig i ofal cleifion weithiau.

Dim ond saith o'r un ar bymtheg a atebodd y cwestiwn a oeddent wedi cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015, a ddywedodd eu bod wedi cael gwybodaeth. O ganlyniad, nid oedd y staff yn siŵr am y safonau hyn ac mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymhlith staff y ward ar y ddwy ward.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ganfyddiadau archwiliadau a monitro cynlluniau gwella fel rhan o drefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Craffu wythnosol a fynychwyd gan uwch reolwyr a rheolwyr y wardiau, ac roedd croeso hefyd i aelodau eraill o'r staff eu mynychu. Byddai pob cyfarfod yn canolbwyntio ar bwnc penodol megis atal cwympiadau cleifion, niwed i feinweoedd a briwiau pwyso, a rheoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn gyfle i'r staff ddadansoddi ystadegau a thueddiadau, adolygu achosion unigol, dysgu o ddigwyddiadau blaenorol a rhannu'r hyn a ddysgwyd â chydweithwyr.

Fodd bynnag, er bod tueddiadau'n cael eu harchwilio a'u dadansoddi, mae ein canfyddiadau am ofal nyrsio a chwblhau cofnodion, yn arbennig ar Ward Ceri, yn nodi angen am archwiliadau mwy cadarn o gofnodion clinigol ar y wardiau. Diben hyn yw sicrhau bod dogfennaeth gofal unigol a chyfredol ar waith ar gyfer pob claf.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur, pan oeddent wedi bod yn dyst i gamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad a allai fod wedi niweidio cleifion neu staff, eu bod wedi rhoi gwybod am y digwyddiad. Fodd bynnag, o ystyried yr ymatebion i'n holiadur staff ar Ward Ceri mewn perthynas â digwyddiadau a diogelu cleifion a nodwyd yn gynharach, rhaid i'r bwrdd iechyd (fel y nodwyd yn gynharach) sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon ynglŷn â diogelu.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella'r broses gyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff y wardiau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Safonau Iechyd a Gofal.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom y staff yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd dosturiol a thrylwyr. Dywedwyd bod morâl y staff yn uchel, a gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob aelod o'r staff ar Ward Cadog eu bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant, neu ddysgu a datblygu, mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, Diogelwch Tân, Rheoli Heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Dementia neu Ddeliriwm a phreifatrwydd ac urddas pobl hŷn. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau o fewn y 12 mis diwethaf.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob aelod o'r staff ar Ward Ceri eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant, neu ddysgu a datblygu, mewn iechyd a diogelwch, Diogelwch Tân a Rheoli Heintiau. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant hwn

wedi'i gwblhau o fewn y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, ni ddywedodd pob aelod o'r staff eu bod wedi cwblhau hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Dementia neu Ddeliriwm na phreifatrwydd ac urddas pobl hŷn. Mae'r rhain yn feysydd arwyddocaol y dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohonynt ac yn cael hyfforddiant arnynt.

Roedd yn gadarnhaol nodi, yn y ddwy ward, fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol mewn cysylltiad â'u gwaith. Roedd hyn yn cynnwys gwythïen-bigiadau, trallwysu cynhyrchion gwaed, diabetes, monitro glwcos, eiddilwch a rheoli gwrthdaro.

Roedd yn amlwg o'n trafodaethau gyda staff a'u hymatebion i'r holiaduron, fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant. Gwnaethom hefyd adolygu ystadegau hyfforddiant y bwrdd iechyd ar gyfer y ddwy ward. Er y cydnabuwyd bod cyfraddau cwblhau yn isel ar gyfer rhai aelodau o'r staff ar y ddwy ward, cafwyd sicrwydd gan yr uwch reolwyr ynglŷn â'r ffordd roeddent yn cefnogi'r staff i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol gofynnol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael arfarniad o'u gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Cafwyd sicrwydd gan yr uwch reolwyr fod unrhyw arfarniadau nad oedd eto wedi'u cynnal ar fin cael eu cwblhau.

Roedd nyrsys dan hyfforddiant ar y ddwy ward, a gwnaethant siarad yn gadarnhaol am eu cyfnod ar y wardiau.

Holwyd y staff yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y swydd, ar y cyfan, yn llesol i'w hiechyd. Ar Ward Cadog, roedd saith allan o wyth o ymatebion yn cytuno â'r datganiad hwn, ac roedd pob ymateb yn cytuno bod rheolwr llinell uniongyrchol yr aelod o'r staff yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn ei iechyd a'i lesiant.

Roedd pob un ond un o'r ymatebion ar Ward Cadog yn cytuno bod rheolwr llinell uniongyrchol yr aelod o'r staff yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn ei iechyd a'i lesiant. Fodd bynnag, dim ond tri allan o ddeg o ymatebion a oedd yn cytuno bod y swydd, ar y cyfan, yn llesol i'w hiechyd. Gwnaed y sylw canlynol:

“Mae staffio ac adnoddau yn cael effaith negyddol mewn meysydd craidd, ac nid oes neb yn ymdrin â hyn, sy'n golygu bod staff yn teimlo dan bwysau.”

Ar adeg yr arolygiad, roedd 2.24 o swyddi gwag cyfwerth ag amser llawn ar gyfer nyrsys cofrestredig ar Ward Ceri, a dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael

eu llenwi gan nyrsys asiantaeth ar drefniadau cyfnod penodol. Roedd proses recriwtio ar y gweill hefyd ar gyfer swyddi pennaeth therapïau a phennaeth therapïau cynorthwyol, ac roedd y swyddi hyn yn cael eu llenwi gan staff locwm. Er bod y staff yn siarad yn gadarnhaol am y staff a oedd yn llenwi'r swyddi hyn, roedd y swyddi gwag wedi effeithio ar barhad a datblygiad y ward, ers iddi gael ei sefydlu ym mis Hydref 2018.

Roedd yn amlwg bod y staff ar y ddwy ward yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel. Fodd bynnag, mae'n amlwg o ganfyddiadau ein harolygiad fod angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff ar Ward Ceri yn cael eu cefnogi gan ddigon o adnoddau er mwyn sefydlu arferion y ward, er mwyn i'r staff gyflawni eu cyfrifoldebau clinigol a datblygu swyddogaeth y ward ymhellach, er budd y cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu harfarniad blynyddol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y darperir digon o adnoddau i Ward Ceri er mwyn datblygu swyddogaeth ailalluogi'r ward.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Glangwili

Wardiau: Ward Cadog a Ward Ceri

Dyddiad arolygu: 5 a 6 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Glangwili

Wardiau: Ward Cadog a Ward Ceri

Dyddiad arolygu: 5 a 6 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd a llesiant yn cael ei harddangos ac ar gael ar Ward Ceri	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Sicrhau bod hysbysfyddau priodol yn cael eu darparu i Ward Ceri.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Ail-greu arddangosfa wybodaeth Ward Cadog yn Ward Ceri.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Ymchwilio i'r wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ynglŷn ag ailalluogi a monitro cydymffurfiaeth y wybodaeth sydd ar gael drwy hapwiriadau.	Rheolwr y Ward	30/10/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau Cipolwg ar Statws Cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyfredol berthnasol er mwyn cynorthwyo'r staff.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Adolygu'r wybodaeth gyfredol a gaiff ei harddangos ar y Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn erbyn y safon y cytunwyd arni.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Atgoffa'r staff am yr angen i ddiweddarau gwybodaeth ar y byrddau yn brydlon.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Cyflwyno gwiriadau dyddiol ar gyfer y Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion er mwyn sicrhau ei fod yn arddangos gwybodaeth gyfredol.	Rheolwr y Ward	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am Gweithio i Wella yn cael ei harddangos yn glir ac ar gael ar Ward Ceri.	6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth	Rhoi gwybodaeth am Gweithio i Wella ar yr arddangosfeydd ar Ward Ceri.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Monitro cydymffurfiaeth y wybodaeth sydd ar gael drwy hapwiriadau.	Rheolwr y Ward	30//10/19
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo y gallant roi gwybod am ddigwyddiadau, a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hyn.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Rhannu adroddiad a chanfyddiadau AGIC ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau â grwpiau staff ar wahân i'r staff Nyrsio drwy swyddogion arweiniol dynodedig er mwyn iddynt eu trafod yn eu cyfarfodydd adran.	Pennaeth Nyrsio	30/09/19
		Adolygu'r hyfforddiant ar roi gwybod am ddigwyddiadau a ddarperir ar y safle gyda phob grŵp staff gyda chefnogaeth y tîm Sicrwydd, Diogelwch a Gwella.	Pennaeth Nyrsio	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r	2.1 Rheoli risg	Cyflwyno system gadarn i roi adborth i	Uwch-reolwr	30/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
staff yn cael adborth yn sgil digwyddiadau a gwersi i'w dysgu o feysydd eraill.	a hybu iechyd a diogelwch	bob aelod o'r staff sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiad ar ganlyniad yr adolygiad. Sicrhau y cynhelir cyfarfodydd ward amserol gydag agenda sy'n adlewyrchu'r gwersi i'w dysgu o feysydd eraill.	Nyrsio Rheolwr y Ward	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer atal niwed i feinweoedd a briwiau pwyso yn ôl yr angen.	2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	Darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cynlluniau gofal unigol ar Ward Ceri er mwyn atal niwed i feinwe a briwiau pwyso.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried sut y caiff anghenion gofal y cleifion eu diwallu mewn ffordd amserol, ar gyfer y rheini sydd angen asesiad gan Nyrs Hyfywedd Meinwe.	2.2 Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd	Adolygu'r broses atgyfeirio bresennol ar gyfer asesiad gan y Nyrs Hyfywedd Meinwe. Cyfleu'r broses atgyfeirio i'r staff nyrsio er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r broses a'r camau gweithredu gofynnol. Datblygu system gadarn i gofnodi cyngor a roddir gan y Nyrs Hyfywedd Meinwe dros ffôn yng nghynlluniau gofal y cleifion.	Pennaeth Nyrsio Uwch-reolwr Nyrsio Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19 30/08/19 30/09/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer atal cwympiadau yn ôl yr	2.3 Atal Cwympiadau	Darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cynlluniau gofal unigol ar Ward Ceri er	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
angen.		mwyn atal cwympiadau. Monitro cydymffurfiaeth drwy hapwiriadau ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol er mwyn gwella.	Uwch-reolwr Nyrsio	31/08/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ardaloedd cawodydd yn cael eu glanhau ar ôl iddynt gael eu defnyddio, ac na chaiff pethau ymolchi eu gadael yn yr ystafelloedd cawod i'w rhannu gan nifer o gleifion.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Rhaid i staff y ward gynnal archwiliadau hapwiriadau er mwyn sicrhau bod ardaloedd cawodydd yn lân ar Ward Cadog, gan gynnwys tynnu pethau ymolchi oddi yno, a rhaid i hyn gael ei gynnwys fel rhan o drefniadau glanhau'r ward. Cyflwyno posteri i roi cyngor i gleifion sy'n defnyddio'r cyfleusterau heb gymorth nyrsio ar yr angen i roi gwybod i'r nyrsys neu'r staff gwasanaethau gwesty os oes unrhyw beth wedi'i sarnu yn ardaloedd y cawodydd / toiledau.	Rheolwr y Ward Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19 30/08/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau bwyd a hylif yn cael eu cwblhau'n gywir.	2.5 Maeth a Hydradu	Adolygu arfer presennol ar Ward Ceri ar gwblhau'r siartiau hylif a bwyd a chyflwyno hyfforddiant yn ôl yr angen. Monitro cydymffurfiaeth drwy hapwiriadau ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau a sicrhau y cymerir camau	Rheolwr y Ward Rheolwr y Ward	30/07/19 30/10/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gweithredu priodol er mwyn gwella.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal ar waith ar gyfer maeth a hydradu pan fydd eu hangen.	2.5 Maeth a Hydradu	Darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cynlluniau gofal unigol ar Ward Ceri ar gyfer hydradu a maeth.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19
		Monitro cydymffurfiaeth drwy hapwiriadau ar ôl i'r hyfforddiant gael ei gwblhau a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol er mwyn gwella.	Rheolwr y Ward	30/10/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd i ddarparu prydau amgen addas i gleifion, os bydd anawsterau arlwy.	2.5 Maeth a Hydradu	Nodi proses y gall y staff ei dilyn i gefnogi cleifion drwy gynnig prydau amgen priodol iddynt pan fydd anawsterau arlwy.	Pennaeth Nyrsio	30/07/19
		Cynnal hyfforddiant codi ymwybyddiaeth yn y ddwy ward er mwyn sicrhau bod y staff yn deall y broses a'u cyfrifoldebau.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/10/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell glinig a'r cypyrddau meddyginiaeth yn cael eu cloi ar Ward Cadog.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Newid y cod ar y clo bysellfwrdd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
		Cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cypyrddau meddyginiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar glo.	Rheolwr y Ward	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi'n gywir ac y cedwir cofnod o hyn	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Cyfarwyddwyr Clinigol i drafod yr angen i wella'r broses o ragnodi ocsigen gyda'r	Cyfarwyddwyr Clinigol	30/10/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ar Siart Cyffuriau Cymru Gyfan.		staff meddygol.		
		Darparu hyfforddiant i staff y wardiau ar ragnodi a defnyddio therapi ocsigen.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/10/19
		Monitro'r siart meddyginiaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau rhagnodi ocsigen drwy weithgarwch archwilio.	Rheolwr y Ward - Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau	30/10/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn teimlo'n hyderus ac wedi'i gefnogi i roi gwybod am bryderon yn ymwneud â diogelu.	2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed	Trefnu gweithdy i bob aelod o'r staff ar roi gwybod am faterion diogelu a mynd i'r afael â phryderon.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/10/19
		Adolygu hyfforddiant gorfodol presennol ar gyfer Ward Cadog a Ward Ceri mewn perthynas â hyfforddiant Diogelu.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Darparu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelu.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Rhannu adroddiad a chanfyddiadau AGIC ynghylch y pryderon diogelu â grwpiau staff ar wahân i'r staff Nyrsio drwy swyddogion arweiniol dynodedig er	Pennaeth Nyrsio	30/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mwyn iddynt eu trafod yn eu cyfarfodydd adran.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod poen yn cael ei hasesu a'i rheoli gan aelod o'r staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, a bod y cofnodion yn cael eu cwblhau'n gywir.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Darparu hyfforddiant ar asesu, rheoli a gwerthuso poen ar Ward Ceri.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/10/19
		Monitro cydymffurfiaeth â rheolau rheoli poen drwy hapwiriadau a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol er mwyn gwella.	Rheolwr y Ward	30/11/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob meddyg yn cynnwys ei rif cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'i rif blîp ar bob cofnod y mae'n ei nodi ar gofnodion cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	Cyfarwyddwyr Clinigol i drafod yr angen i wella dogfennaeth gyda'r staff meddygol.	Cyfarwyddwyr Clinigol	30/10/19
		Monitro cydymffurfiaeth drwy hapwiriadau a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol er mwyn gwella.	Rheolwr y Ward	30/11/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion pob claf yn cael eu trefnu mewn ffordd systematig.	3.5 Cadw cofnodion	Rhannu canfyddiadau'r adroddiad ar weithdrefnau gwael wrth ffeilio cofnodion cleifion gyda Chlerc pob ward.	Pennaeth Nyrsio	30/08/19
		Atgoffa pob aelod o'r staff o'r angen i sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu ffeilio'n briodol ac yn ddiogel.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/08/19
		Adolygu'r system ffeilio bresennol ar Ward Ceri.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/10/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Monitro cydymffurfiaeth drwy hapwiriadau o gofnodion nodiadau cleifion a sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol er mwyn gwella.	Rheolwr y Ward	30/11/19
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried yr opsiynau ar gyfer gwella'r broses gyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff y wardiau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Sicrhau cyswllt dyddiol rhwng yr Uwch-reolwr Nyrsio a thîm y ward ar Ward Ceri.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19
		Trefnu sesiynau galw heibio chwarterol gyda'r Tîm Triwriaeth, wedi'u harwain gan y Pennaeth Nyrsio, y gall pob aelod o'r staff eu mynychu.	Pennaeth Nyrsio	30/07/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Safonau Iechyd a Gofal.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Rheolwyr y Wardiau i sicrhau bod y Safonau Iechyd a Gofal yn cael eu trafod yn eu cyfarfodydd ward.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Pob Uwch-reolwr Nyrsio i sicrhau bod agendâu cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu strwythuro i ddangos y Safonau Iechyd a Gofal.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.	7.1 Y Gweithlu	Rhannu cydymffurfiaeth â thimau'r wardiau ar ôl cyfarfodydd cyllidebu a rheoli misol y Gyfarwyddiaeth.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19
		Rheolwyr y Wardiau i sicrhau y caiff y cynllun gweithredu ar gyfer cydymffurfio ei fonitro yng nghyfarfodydd 1 i 1 yr Uwch Nyrs.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Darparu cymorth ychwanegol drwy wella mynediad at gymorth TG er mwyn cyflawni'r hyfforddiant e-ddysgu gorfodol.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/09/19
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau eu harfarniad blynyddol.	7.1 Y Gweithlu	Rhannu cydymffurfiaeth â thimau'r wardiau ar ôl cyfarfodydd cyllidebu a rheoli misol y Gyfarwyddiaeth.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/07/19
		Rheolwyr y Wardiau i sicrhau y caiff y cynllun gweithredu ar gyfer cydymffurfio ei fonitro yng nghyfarfodydd 1 i 1 yr Uwch Nyrs.	Rheolwr y Ward	30/07/19
		Darparu cymorth ychwanegol i Reolwr y Ward a'r dirprwy er mwyn sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo i gwblhau arfarniadau gyda'r staff, os bydd heriau'n codi.	Uwch-reolwr Nyrsio	30/09/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y darperir digon o adnoddau i Ward Ceri er mwyn datblygu swyddogaeth ailalluogi'r ward.	7.1 Y Gweithlu	Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adrodd i dîm Llywodraethiant y Gyfarwyddiaeth bob pythefnos ar gydymffurfiaeth o ran adnoddau ar gyfer swyddogaeth ailalluogi Ward Ceri.	Rheolwr Cyffredinol	30/07/19
		Achosion o oedi i gael eu nodi, eu hasesu o ran risgiau a'u cynnwys ar Gofrestr Risg y gwasanaeth/y gyfarwyddiaeth fel sy'n briodol.	Pennaeth Nyrsio	30/08/19

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Bethan Lewis

Teitl swydd: Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 30 Ebrill 2019